

Therapi Galwedigaethol Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig Cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio Chwistrelliad Kelocote

Sut i'w ddefnyddio

- Chwistrellwch tair gwaith y dydd ar ôl tylino'r graith.
- Sicrhewch fod y man yr effeithir arno yn lân ac yn sych.
- Siglwgch y can yn dda cyn defnyddio.
- Tynnwch y cap o'r can a chwistrellwch ar hyd y graith â symudiad ysgubo.
- Dylid taenu haenen denau iawn, heb unrhyw fylchau, o chwistrelliad Kelocote ar y man yr effeithir arno (rhaid i'r man cyfan cael haenen drosto er mwyn bod yn gwbl effeithiol).
- Ni ddylai Kelocote gronni, diferu na rhedeg (os bydd, rydych wedi defnyddio gormod).
- Gadewch i sychu'n llwyr cyn gorchuddio â dillad pwysau, eli atal haul neu golur (gall Kelocote staenio dillad os nad yw'n gwbl sych).

Gofal Chwistrelliad

Mae Kelocote yn cynnwys nwyon fflamadwy sy'n helpu i ryddhau'r silicôn.

- Mae'n fflamadwy dros ben felly cadwch draw oddi wrth wres.
- Peidiwch â chwistrellu ar fflam agored neu ddefnydd gwynias a chadwch draw oddi wrth ffynonellau tanio
- Peidiwch ag ysmegu wrth ddefnyddio'r chwistrelliad.
- Mae'n gynhwysydd gwasgeddedig a dylid ei warchod rhag heulwen. Peidiwch â'i ddodi mewn tymereddau sy'n uwch na 50°C/120°F.
- Peidiwch â rhwyllo na llosgi'r can hyd yn oed ar ôl ei ddefnyddio.
- Peidiwch â mewnanadlu chwistrelliad kelocote.
- Peidiwch â'i ddefnyddio wrth y llygaid, y trwyn, y geg ac osgoi ei ddefnyddio ar glwyfau agored.
- I'w ddefnyddio yn allanol yn unig.
- Cadwch allan o gyrraedd plant.
- Peidiwch â'i ddefnyddio ar ôl y dyddiad dod i ben (EXP) sydd wedi'i brintio ar y can.

Os oes angen rhagor o arweiniad arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y chwistrelliad silicôn neu os yw'r graith yn dangos unrhyw arwyddion o lid croen, brech, mannau agored neu ddiferol, rhowch y gorau i ddefnyddio'r chwistrelliad a chysylltu â'ch gweithiwr allweddol.

Ffôn: (01792) 703980
yn ystod oriau gwaith 8:30am tan 4:30pm
(Peiriant Ateb ar gael)